# GWNEUD PLANHIGION MEFUS NEWYDD

**COFIA**
Defnyddia glip papur i binio'r planhigyn newydd yn y potyn

1



**Chwilia am blanhigyn newydd:** o fis Mehefin bydd y fam blanhigyn yn creu coesynnau hir o'r enw 'ymledyddion', ac mae planhigion bach wedi'u cysylltu â'r rhain.

2



**Cadwa'r planhigyn newydd ar y coesyn:** a'r fam blanhigyn fel bod ganddo gyflenwad o ddŵr a maethynnau.

3



**Gwna dwll:** oddi wrth y fam blanhigyn sy'n ddigon mawr i ffitio potyn 9com. Rho botyn yn y twll a'i lenwi â phridd.

4



**Planna'r planhigyn newydd:** gelli di ei binio i wyneb y pridd i'w angori.

5



**Arhosa i'r planhigyn wreiddio:** bydd y planhigyn yn rhoi gwreiddiau i mewn i'r pridd ymhen 4-6 wythnos.

6



**Dal ati i ddyfrio:** am ei fod yn tyfu mewn potyn, bydd angen dyfrio'n rheolaidd tan fydd y gwreiddiau wedi datblygu.

7



**Torra'r coesyn:** o'r fam blanhigyn ar ôl i'r planhigyn newydd wreiddio.

8



**Ailblanna'r planhigyn newydd:** gelli di naill ai ei blannu yn y pridd yn rhywle arall neu ei gadw yn y potyn i'w roi i rywun.